# Proffil Swydd

Cyflog: Gradd 9 - £39,862 - £41,771

**Ynglŷn â'r Swydd hon**

Mae cyfle heriol a chyffrous yn bodoli i'r person cywir fod yn rhan o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y swydd Cynghorydd Adnoddau Dynol dros dro.

Bydd yr unigolyn llwyddiannus yn gyfrifol am gynnig cymorth AD ar draws y Gwasanaeth i reolwyr, gweithwyr ac aelodau o'r Tîm Cefnogi Adnoddau Dynol. Canolbwynt y rôl fydd meithrin perthnasoedd trwy ddarparu atebion, cyngor ac arweiniad mewn modd rhagweithiol. Yn allweddol i'r rôl hon bydd cefnogi'r rheolwr penodedig i gwblhau portffolio penodol.

**Y Person**

Bydd gan ymgeiswyr addas brofiad o weithredu mewn amgylchedd Adnoddau Dynol, a bydd ganddynt sgiliau rhyngbersonol rhagorol er mwyn cynghori gweithwyr. Bydd gan ymgeiswyr, neu bydd ymgesiwyr yn gweithio tuag at, Aelodaeth CIPD i Raddedigion, gyda gwybodaeth gadarn o arferion Adnoddau Dynol a sut i'w cymhwyso yn unol â Chyfraith Cyflogaeth.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus wedi'i leoli ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân yng Nghaerfyrddin, sy'n gweinyddu 58 o orsafoedd tân a 1300 o staff gyda chyllideb o dros £63 miliwn. Mae Canolbarth a Gorllewin Cymru yn darparu amgylchedd hardd i fyw a gweithio ynddo, a'r cyfle i fyw bywyd o ansawdd uchel.

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Cynghorydd Adnoddau Dynol (Tymor Penodol yn Ymwneud â Mamolaeth) |
| **SAFLE/RÔL:** | 9 |
| **LLEOLIAD:** | Adran Adnoddau Dynol, Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin |
| **YN GYFRIFOL I:** | Rheolwr AD |
| **PRIF DDIBEN Y SWYDD:** | 1. Meithrin perthnasoedd proffesiynol cryf â rhanddeiliaid trwy ddarparu atebion, cyngor ac arweiniad a ystyriwyd yn ofalus ar faterion sy'n ymwneud ag Adnoddau Dynol mewn modd rhagweithiol ac amserol.<br>2. Darparu cefnogaeth ac arweiniad i reolwyr, gweithwyr, aelodau o'r Tîm Cefnogi AD a swyddogion cyfeiriol yr Adran ar faterion yn ymwneud ag AD.<br>3. Defnyddio profiad, sgiliau a gwybodaeth am AD i gael effaith mewn meysydd allweddol megis rheoli salwch; rheoli Perfformiad; cynllunio olyniaeth a recriwtio/dyrchafu.<br>4. Hyfforddi/Mentora unigolion gan annog amgylchedd dysgu lle mae unigolion yn datblygu yn eu rôl e.e. Rheolwyr Llinell i ymdrin yn rhagweithiol â materion pobl. |

| RHESTR O GYFRIFOLDEBAU | YN ATEBOL I |
|---|---|
| 1. Bod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer eich meysydd penodedig ar gyfer yr holl faterion sy'n ymwneud ag AD. Darparu cyngor/atebion cywir ac ystyriol i faterion pobl o fewn targedau'r cytundeb lefel gwasanaeth. | Rheolwr AD |
| 2. Cefnogi'r Rheolwr AD penodedig i gwblhau gweithgareddau AD sy'n ymwneud â phortffolio cyfrifoldeb dynodedig y Rheolwr AD. | Rheolwr AD |
| 3. Meithrin perthnasoedd proffesiynol dibynadwy gyda Rheolwyr Llinell i'w cefnogi i yrru perfformiad busnes i gefnogi anghenion gweithredol. Bydd hyn yn cynnwys cefnogaeth ragweithiol drwy sicrhau eu bod yn ymwybodol o bolisïau/gweithdrefnau ac yn eu dilyn yn effeithiol | Rheolwr AD |
| 4. Meithrin diwylliant 'un tîm' drwy sicrhau cywirdeb/atebolrwydd am eich llwyth gwaith eich hun ond hefyd cefnogi eraill i sicrhau bod safonau a therfynau amser yn cael eu bodloni. | Rheolwr AD |
| 5. Darparu arweiniad a hyfforddiant i'r Cynorthwywyr Clerigol/AD ar ddelio â recriwtio, iechyd galwedigaethol; materion cysylltiadau gweithwyr i sicrhau bod y Tîm Cefnogi yn cael ei redeg yn esmwyth. | Rheolwr AD |
| 6. Cynnal dealltwriaeth glir o'r fframwaith cyfreithiol y mae AD yn gweithredu o'i fewn a darparu gwybodaeth gyfredol ohono; datblygu polisïau AD yn unol â deddfwriaeth gyfredol a chadw i fyny â gweithdrefnau AD modern ac arfer gorau. | Rheolwr AD |
| 7. Cysylltu â'r Rheolwyr AD i ddarparu cefnogaeth a gwybodaeth i'w galluogi i fonitro materion AD yn eu meysydd cyfrifoldeb e.e. disgyblu, recriwtio, absenoldeb oherwydd salwch a chynnal y gronfa ddata gyda gwybodaeth berthnasol | Rheolwr AD |
| 8. Defnyddio systemau i wneud y mwyaf o lif gwybodaeth gywir. Dadansoddi tueddiadau a metrigau i gefnogi gwneud penderfyniadau ac argymhellion ar gyfer gwella. | Ymgynghorwyr AD |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Profiad** | Profiad cyffredinol blaenorol o weithio mewn amgylchedd Adnoddau Dynol<br><br>Profiad dangosadwy o weithio fel Partner Busnes AD / Cynghorydd mewn sefydliad mawr | **Hanfodol***<br><br>Dymunol | Ffurflen gais a chyfweliad |
| **Sgiliau sy'n gysylltiedig â'r Swydd/Personol** | Sgiliau rhyngbersonol rhagorol er mwyn cyfathrebu â gweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd a'u cynghori<br><br>Y gallu i ddehongli a thynnu gwybodaeth berthnasol o wahanol ffynonellau, a throi deunydd cymhleth yn adroddiadau cryno, perthnasol a diddorol<br><br>Y gallu i weithio dan bwysau i derfynau amser tynn, yn aml yn gorfod blaenoriaethu i gwrdd â llwyth gwaith annisgwyl<br><br>Y gallu i gynghori, dylanwadu a pherswadio eraill, yn aml ar lefelau uwch | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | Ffurflen gais a chyfweliad |
| **Cyfathrebu** | Y gallu i baratoi a chyflwyno'n hyderus i gynulleidfaoedd proffesiynol<br><br>Sgiliau ysgrifenedig a llafar Cymraeg<br><br>Sgiliau ysgrifenedig a llafar Saesneg | **Hanfodol***<br><br>Dymunol<br><br>**Hanfodol*** | Ffurflen gais a chyfweliad |

